

Canolfan yn y Gymuned

Cylchlythyr Canolfan y Fron

Awst 2020

Helo. Croeso i fformat newydd ein cylchlythyr gyda theitl newydd sydd yn crynhoi beth mae Canolfan Y Fron yn ei olygu. Gwnawn hyn gan eich bod chi, aelodau'r gymuned, wedi gofyn i ni ei wneud.

Mae'r flwyddyn yma wedi bod yn annodd iawn i bawb, ac os rydym wedi cadw'n ddistaw ar sut mae Covid-19 wedi taro'r Ganolfan mae hyn oherwydd ein bod yn prysur ganolbwyntio ar gadw'r fenter gymunedol yn fyw. Mae'r mwyafrif o'n hincwm yn dod o'r Llety a'r Caffi a'r rhan fwyaf rhwng Ebrill a Hydref. Mae'r cloi lawr wedi gostwng ein hincwm i ddim. Mae hyn wedi ein gorfodi i gymryd penderfyniadau anodd a thorcalonnus iawn.

Rydym yn gwybod erbyn hyn lle'r ydym a'r sialensiau enfawr mae'r Ganolfan yn eu hwynebu, felly mae'n amser gadael i bawb wybod y ffeithiau - da a drwg - i'ch galluogi i ddod i'ch canlyniadau eich hunain.

1. DISWYDDIADAU

Gyda chyn lleied o incwm yn dod i mewn nid oedd y Ganolfan yn gallu cyllido'r bil cyflog ac felly cafwyd 2 o'r 4 swydd gydag oriau wythnosol ei seibiannu ym mis Mawrth. Golygai hyn fod y Llywodraeth DU yn talu 80% o'u cyflog. Roeddem yn gobeithio y buasai cloi-lawr yn parhau am gyfnod byr a buaswn yn gallu achub rhan o'r Haf a dod a nhw'n ôl. Erbyn mis Gorffennaf ddaeth yn glir nad oedd CYF yn gallu gwneud digon o arian i gynnal y 2 swydd wrth symud ymlaen cyn diwedd y tymor ym mis Hydref. Gydag amharodrydd mawr penderfynwyd y Bwrdd i ddiddymu'r ddwy swydd gan wneud deilydd y 2 swydd yn ddi-waith. Rydym yn diolch iddynt am eu cyfraniad ac yn dymuno yn dda iddynt am y dyfodol.

Pan fydd bywyd yn dychwelyd yn ôl i ryw fath o normalrwydd ddylai'r Ganolfan brysuru unwaith eto a'n bwriad yw recriwtio yn syth pan fydd y sefyllfa ariannol yn caniatáu. Mae Covid-19 wedi sbarduno newidiadau parhaol enfawr, felly fydd y swydd ddisgrifiadau yn wahanol, ond fydd croeso i bawb, gan gynnwys y rhai a chafwyd diswyddiad, ymgeisio.

2. STAFFIO PRESENNOL

Mae gennym bedwar aelod o staff rhan amser:

Christine Humphreys yn y Siop sydd yn gweithio 24 awr yr wythnos

Pauline Williams sydd yn glanhau'r Ganolfan pan fo'r angen

Anibal Sousa oedd yn gwneud y Sgods a Sglods ac yn llenwi i mewn pan fo'r angen

Jim Embrey sydd yn gweithio 12 yr wythnos yn gwneud prosiectau arbennig fel ceisiadau grantiau a marchnata

Mae Christine, Anibal a Jim hefyd yn gwneud llawer o oriau gwirfoddoli yn ychwanegol i'w swyddi arferol.

3. Y BWRDD

Ar hyn o bryd mae 7 aelod ar y Bwrdd. Mae rhai o'r aelodau etholedig wedi cytuno i arwain ar y meysydd gwaith a ddangoswyd. Yr aelodau hyn yw (yn nhrefn y wyddor):

Sandy Barthorpe (Trysorydd)	Gwenda Roberts
Mike Elsdon (Llety, Marchnata, Safle'r We)	John Rowlands {cyfetholedig} (Cynnal a Chadw Adeiladau)
Anwen Harman	Steven Whitten {cyfetholedig} (Cymorth TG)
Mandy Hindle (Cadeirydd, Gwirfoddoli)	

Fel canlyniad o'r pandemig Covid-19 mae aelodau'r bwrdd wedi rhoi cryn ymdrech i gadw'r Ganolfan yn weithredol.

Fydd cyfarfod anghyffredin o'r Cwmni ar ddydd Mercher 19eg o Awst i ethol aelodau newydd i'r Bwrdd ac i ethol Cadeirydd newydd i'r Cwmni.

4. Y SIOP

Mae Christine wedi gwneud joban wych yn y Siop o'r eiliad ddechreuodd cloi-lawr.

Mae'n hapus archebu nwyddau ar unrhyw adeg. Mae un cwsmer yn cael podiau coffi Starbucks bob wythnos ac un arall yn cael bwyd babi arbennig. Oes rhywun wedi trio archebu Rolls Royce bellach? Mae'r archeb yn cyrraedd ar ddydd Mercher felly mae'n rhaid archebu ar ddydd Llun.

Mae busnes wedi cynyddu yn driphlyg yn ystod cloi-lawr er ei fod bellach wedi lleihau ychydig. Mae llawer o gwsmeriaid newydd, dim yn unig o Y Fron ond hefyd o Garmel a Rhosgadfan. **HOFFWN DDIOLCH I CHI GYD AM EICH CEFNOGAETH A CHWSTWM - HEBDDO NI FYDD YNA SIOP.**

Mae'r Siop yn Covid-19 ufudd gyda diogelwch Covid wedi'u gosod, staff a gwirfoddolwyr yn gwisgo masgiau a menig ac ynysu cymdeithasol mewn lle.

Fe gewch frechdannau a bwydydd oer arall yn y Siop a bwyta tu allan ar un o'm 4 bwrdd newydd.

I leihau risg Covid, mae llawer o bobl yn talu gyda cherdyn ond fe gafwyd sioc enfawr ar ôl derbyn £500 o gostau banc ychwanegol mewn 2 fis. I reoli hyn, fe oedd yn rhaid i ni sefydlu lleiafswm o £5 ar bob gwerthiant cerdyn ac rydym yn ymwybodol fod hyn wedi bod yn anodd iawn i rai cwsmeriaid. Rydym wedi trafod y costau gyda'r bank ac yn ei monitro i weld yr effaith. Os yw hyn yn gweithio, mi wnawn adolygu'r lleiafswm o £5. Yn y cyfamser, os ydych yn siopa yn rheolaidd, fe allwn gynnig cyfrif credyd lle allwch dalu yn wythnosol gyda'ch cerdyn ac felly yn osgoi'r taliad o £5.

Mae'r Siop ar agor am 52 awr yr wythnos felly mae 28 awr yn cael o'r amser yma yn cael eu staffio can gwirfoddolwyr di-dâl. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniad at y gymuned. Fodd bynnag, mae nifer o adegau ble mae'r siop wedi gorfod cau gan fod neb ar gael. Rydym wirioneddol angen mwy o aelodau'r gymuned i wirfoddoli felly os ydych eisiau rhyddhau eich 'Arkwright' mewnol, cysylltwch gyda Mandy Hindle ar 07774 180295.

Wrth edrych ymlaen, mae nifer ohonoch wedi gofyn ac wedi arwyddo deiseb, i gefnogi'r Ganolfan i werthu alcohol yn y Siop a gyda phrydau yn y Caffi. Mae penderfyniad ymateb i hyn yn cael ystyriaeth gan y Bwrdd.

5. YSTAFELLOEDD CYHOEDDUS A DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL

Fu i'r ystafelloedd cyhoeddus ail agor gydag ynysu cymdeithasol ar ddydd Llun 20^{fed} o Orffennaf. Y digwyddiad cyntaf oedd noson BINGO llwyddiannus iawn ar ddydd Mercher, 5^{ed} o Awst am 7.00pm. Os hoffai rhywun rentu un o'r ystafelloedd cyhoeddus i gynnal digwyddiad personol neu breifat, gallwch i mewn neu ffonwch 01286 880882.

6. Y LLETY

Pan fu Mike Elsdon ymuno a'r Bwrdd, fe ddaeth a'i arbenigedd o redeg bwthyn hunan arlwygo gydag ef. Ym mis Mawrth fe gynhaliodd arolwg o brisiau'r Llety gan ei newid o sail 'y person' i sail ystafell dymhorol. Golygai hyn bydd ystafelloedd yn ddrytach yn y tymor uchel ac yn rhatach yn y tymor isel. Dylai hyn ychwanegu cyfraniad y Llety tuag at y Ganolfan a chadw'r prisiau mewn lein efo'n cystadleuwyr ar led Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r Llety yn cael ei werthu trwy Booking.com, AirBnb, Expedia, Hotels.com a Trivago.

Mae disgownt ar gael am archebion gan drigolion ar gyfer eu ffrindiau. Rhaid archebu rhain yn uniongyrchol – dim trwy'r wefan – a bydd y disgownt yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn. I wneud ymholiadau, gallwch alw i mewn i'r Ganolfan ne e-bostio enquiries@canlofanyfron.org.

Fu Mike a Jim yn arwain trefniadau i ail agor y Llety gyda dulliau Covid-19 newydd gan gynnwys asesiadau risg, pryniant darpariaethau gwrth-firaol, hyfforddi'r Cyfarwyddwyr a staff ar y trefniadau newydd a pharatoi cyfarwyddiadau newydd i'r staff a'r holl westai.

Dychwelwyd ein gwesteion gyntaf ar 16eg Gorffennaf ac ar yr penwythnos gyntaf ym mis Awst cafwyd y bleser o croesawu Kerry a Jason (a'i 5 o fechgyn) o Essex a benderfynwyd dod i Eryri ar ôl i'w cynlluniau priodasol gwreiddiol cael ei dinistrio gan Covid-19: Priodwyd y ddau yn Swyddfa Gofrestru Caernarfon ar fore Sadwrn a dringo'r Wyddfa yn y prynhawn. Dywedasant ei fod yn 'beffaiht' oherwydd y bwyd parod arlwyiedig o Bwyd Blasus Yashka, cacen o Melys Cheesecakes a seidr o Winllan Pant Du.

7. Y CAFFI

Y Caffi ydi rhan o'r Ganolfan sydd hyd yma wedi tanberfformio. Pan gaewyd, gwelsom gyfle i newid a gwella delwedd y lle. Yn unol a hyny, euthum at y Loteri i gael defnyddio arian Cefnogaeth Arbennigol i gael cynghorydd i adolygu polisiiau a gweithdrefnau'r gegin, i ail-ddylunio 'teimlad a gwedd' y Caffi ac i greu bwydlen syml fydd yn rhoi cyfle i agor caffi 'newydd' i'r dyfodol.

Yn y cyfamser, cafwyd gais am y noson boblogaidd Sglod a Sgod fel 'tecawe', a dyna fu'n digwydd yn llwyddiannus am oddeutu 6 wythnos.

Wedi i'r Loteri ganiatau ein cais, recriwtiwyd Yashka Jureczo fel ymgynghorydd. Roedd wedi rhedeg caffi poblogaidd Y Caban yn llwyddiannus iawn. Menter gymunedol tebyg iawn i Ganolfan y Fron yw hwn, a bellach mae Yashka hefo Bwyd Blasus Yashka yng Nghaernarfon. Galwch mewn i flasau ei bwyd bendigedig. Newch ddifaru dim!

Yn unol a'i argymhellion, roedd angen ail-drefnu'r gegin, ac yn anffodus gorfu cau y gegin a rhoi diwedd ar nos Wener Sglod a Sgod. Blaenoriaeth arall ydi gosod llwybr congrid ar hyd ochr ddeheuol o'r adeilad, yn lle y llwybr llechi mân, i gael gwell mynediad i'r Caffi.

Ein bwriad yw ail agor y Caffi cyn diwedd y tymor, ar ffurf cyfyngedig, felly cadwch eich llygaid ar agor.

8. CYNLLUN ADFER Y GANOLFAN

Mae sibrydion fod y Ganolfan wedi cael llwythi o arian gan y Loteri. Y gwir yw fod y Loteri wedi rhoi grantiau o £147,000 i gefnogi y busnes dros gyfnod o 5 mlynedd nes y bydd yn cynnal ei hunan trwy godi arian. Roedd yr arian yma i dalu staff, cyfleustodau, marchnata, gwerthuso y prosiect ynghyd a chostau eraill sydd yn codi trwy gychwyn busnes newydd.

Roedd rhan fwyaf o arian Loteri wedi ei wario cyn i'r aelodau presennol ddod ar y Bwrdd. O'r cychwyn, prif amcan y Bwrdd newydd yw codi refeniw fel bod y Ganolfan yn hunan gynhaliol. Yn anffodus mae'r Covid-19 wedi rhoi diwedd ar hyna. Ni allem droi y cloc 'nol ac felly edrych 'mlaen i'r dyfodol sydd ei angen.

Yng nghynllun busnes gwreiddiol y Ganolfan 'roedd amcan i ddod ag arian i Fron a'r ardal trwy ddenu ymwelwyr i'r Llety, y Siop a'r Caffi. Yn yr Haf llynedd gwiredwyd hyn a cafwyd £70,000 mewn incwm.

Rydym yn amcangyfrif bod colledion rhwng £50,000 a £90,000 oherwydd y Covid-19 a chyfyngder ar ail-agor y Llety. Bydd y colledion yn cynyddu yn ddyddiol nes y cawn ddod nol i normalwydd.

Mae'r Siop yn talu am ei hun bellach, gan roi ychydig o'r elw i'r Ganolfan, ond ni fydd yn gwneud digon o elw i gynnal y lle, ac yn wir, nid yw'r gymuned eisiau hyn.

Pan ddaeth y Covid-19, roedd rhaid gwneud arbedion ariannol ac hefyd rydym wedi ceisio am arian o bôb ffynhonnell bosib ac wedi llwyddo i gael £26,000. Dyna oll o arian sydd yn y coffrau i gynnal y Ganolfan nes y cawn ail agor yn iawn, o bosib Gwanwyn nesaf.

Os yw'r Ganolfan am oroesi, mae angen gwirfoddolwyr gan na allem fforddio talu staff. Mae'r gwirfoddolwyr yn datgan eu bod yn mwynhau, yn cael hwyl a boddhad mawr trwy wneud eu rhan.

'Rydym angen pobol i ymuno â 'deulu' y Ganolfan i:

- a. Helpu yn y Siop.
- b. Cyfieithu gwaith.
- c. Helpu yn y Caffi pan fydd yn ail-agor, paratoi a gweini bwyd.
- d. Paratoi stafelloedd yn y Llety
- e. Helpu hefo rhagarchebion y Llety. (person â sgiliau cyfrifiaduron a gweithio o adref)

Dyma gyfle i chi gymunedau Y Fron, Carmel, Rhosgadfan, Rhostryfan a phellach. I lwyddo mae angen eich gefnogaeth a'ch cymorth. Trwy wirfoddoli cewch brofi sud mae busnes yn cael ei redeg a bod yn ran o 'deulu' sy'n y Ganolfan.

Os oes ganddoch ddi-ddordeb mewn gwirfoddoli cysylltwch a Mandy Hindle ar 07774 180295.

Cewch edrych a gynlluniau ar gyfer dyfodol y Ganolfan ar Awst 15fed a 16eg yn y Ganolfan ac mae croeso ichwi roi adborth.